

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys y gwaith sy'n ofynnol i greu, adfer neu reoli cynefinoedd. Bydd y gwaith sy'n ofynnol yn gwahaniaethu yn ôl natur y cynefin a chanlyniad dymunol y gwaith, ac mae'n rhaid iddo ystyried y defnydd o'r safle.

Mae disgwyl i chi wneud y gweithgareddau hyn gan ddilyn manylebau yn seiliedig ar reoli safle a chynlluniau eraill e.e. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn deall nodweddion y cynefin yr ydych yn gweithio ynddo a'r effaith y bydd eich gwaith yn ei gael arno. Mae sgiliau adnabod rhywogaethau yn bwysig hefyd (wedi'u cynnwys mewn safon ar wahân) yn yr un modd â sgiliau rheoli cynefin.

Dylid ond defnyddio offer trydan a pheiriannau a thaenu cemegion os ydych wedi eich hyfforddi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith yn unol â chaniatâd a thrwyddedau perthnasol ac ar yr adeg gywir o'r flwyddyn. Gall caniatâd a thrwyddedau fod yn berthnasol i waith ar safleoedd dynodedig (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gwarchodfeydd natur, ardaloedd cadwraeth, ac ati), mathau penodol o waith (torri coed i lawr ac ati) neu i bresenoldeb rhywogaethau a warchodir ar y safle hwnnw.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd sydd yn ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd yn gysylltiedig â chreu, adfer neu reoli cynefinoedd.

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r safle a'r gweithgaredd gofynnol
2. gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
3. cadarnhau eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd, cydsyniadau neu drwyddedau gofynnol
4. cynnal asesiad o'r safle a pharatoi'r safle ar gyfer y gwaith cynefin gofynnol
5. dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw offer, cyfarpar, peiriannau a'r PPE gofynnol, gan eu cadw mewn cyflwr glân a gweithredol trwy gydol y gwaith
6. defnyddio peiriannau perthnasol ar gyfer y gwaith a chymryd y camau angenrheidiol i gyfyngu ar effaith amgylcheddol peiriannau ar y safle
7. cynnal diogeledd yr offer, peiriannau a'r deunyddiau ar y safle a'u storio'n ddiogel ar ôl eu defnyddio
8. gwneud yr holl waith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
9. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, rheoliadau lleol, codau ymarfer a gofynion eich sefydliad
10. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
11. cynnal bioddiogelwch trwy gydol eich gwaith
12. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi'u heffeithio ganddo
13. cadw'r safle'n glir o rwystrau a deunydd gwastraff
14. gwneud y gwaith mewn ffordd sydd yn amharu cyn lleied â phosibl ar y safle a'r ardal gyfagos
15. adfer y safle i'r cyflwr gofynnol, sydd yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos
16. defnyddio'r technegau cywir i greu, adfer neu reoli'r cynefin yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
17. ymdrin â gwastraff a deunyddiau dros ben yn gywir, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion y sefydliad
18. cymryd y camau gofynnol os oes niwed damweiniol i'r cynefin
19. adrodd a chofnodi cynnydd fel sy'n ofynnol gan eich sefydliad

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y mathau o waith a safleoedd lle mae angen caniatâd, cydsyniadau neu drwyddedau
4. goblygiadau'r cyfyngiadau neu'r dynodiadau safle perthnasol sydd wedi'u sefydlu i'ch gwaith
5. y ffordd y gallai â'r ddeddfwriaeth neu gyfyngiadau eraill effeithio ar eich gwaith
6. yr effaith y mae defnydd o dir fel ffermio, helwriaeth, hamdden a thwristiaeth yn ei gael ar greu, adfer neu reoli cynefinoedd
7. pwysigrwydd cynnal asesiad amgylcheddol o'r safle cyn dechrau gwaith a'r ffordd y gallai'r canfyddiadau effeithio ar y gwaith cynefin
8. nodau ac amcanion creu, adfer neu reoli cynefin
9. egwyddorion y ffordd y mae fflora a ffawna yn byw ac yn goroesi a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar greu, adfer neu reoli cynefin
10. sut i ddehongli cyfarwyddiadau a manylebau
11. y mathau o offer, cyfarpar, peiriannau a deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith a sut i baratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r rhain yn ddiogel ac yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
12. y gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer paratoi a defnyddio cyfarpar a pheiriannau gwaith
13. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
14. pwysigrwydd cynnal bioddiogelwch wrth wneud gwaith cynefin a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
15. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi'u heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
16. pam a sut mae angen creu, adfer neu reoli cynefinoedd ar gyfer canlyniadau gwahanol
17. yr effaith y bydd y defnydd o'r safle ac amodau amgylcheddol yn ei gael ar dwf llystyfiant, ansawdd cynefinoedd a gwerth y dirwedd
18. yr amser gorau i wneud y gwaith i gynyddu'r buddion i'r cynefin a lleihau niwed amgylcheddol
19. pryd y gallai'r tywydd effeithio ar waith
20. gwerth amgylcheddol y safle, effaith bosibl eich gweithgareddau a ffyrdd y gellir lleihau'r rhain

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

21. yr effaith y bydd eich gwaith yn ei gael ar y cynefin ac ansawdd y dirwedd
22. ffyrdd o annog adfywio naturiol
23. achosion posibl niwed i'r cynefin a'r ffyrdd y gellir ei ddiogelu
24. technegau creu, adfer a rheoli cynefin, yn cynnwys y dulliau traddodiadol, a sut i'w cyflawni
25. y ffordd y mae eich gwaith yn cyd-fynd â chynlluniau lleol fel Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth
26. terfynau eich cyfrifoldeb a'ch arbenigedd, a ble i gael cyngor
27. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer trin, cludo, storio, ailgylchu neu waredu gwastraff a deunyddiau dros ben
28. gofynion eich sefydliad ar gyfer adrodd a chofnodi cynnydd

Geirfa

Gallai **gwerth amgylcheddol** fod yn:

- ecolegol
- bioamrywiaeth
- aesthetig
- hanesyddol
- hamdden
- economaidd
- diwylliannol
- carbon

Gallai **cynefinoedd** fod yn ddaearol, dŵr croyw, arfordirol neu forol yn cynnwys:

- Arfordirol
- Aber
- Tir Fferm
- Dŵr Croyw
- Glaswelltir
- Rhostir a gweundir
- Morol
- Mawndir
- Creigiog
- Trefol
- Gwlyptir
- Coetir

Gallai gwaith **creu, adfer neu reoli cynefinoedd** gynnwys:

- agor canopi coetir i fyny neu goedlannu i hybu adfywiad fflora a choed coetir
- cynlluniau dal carbon/nitrogen
- adfer mawndir
- plannu coed
- rheoli i annog datblygiad planhigion bwyd ar gyfer pryfed penodol
- gwella niferoedd ac amrywiaeth rhywogaethau cynhenid trwy ailgyflwyniadau
- dad-ddofi
- rheoli rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid ymledol nad ydynt yn gynhenid
- adfer afonydd
- rheoli/gwella/diogelu glannau
- creu/rheoli pyllau dŵr

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

- rheolaeth naturiol llifogydd
- adfer gorlifdiroedd/gwlyptiroedd
- rheoli erydiad
- draeniad
- gwaith i reoli effeithiau ymwelwyr
- rheoli prysgwydd mewn corslwyni, glaswelltir, rhostir neu weundir
- gwella safleoedd a chreu cynefinoedd ar safleoedd trefol neu ôl-ddiwydiannol
- rheoli cynefinoedd morol gan wella cymunedau corsydd, gwlyptir, morwellt neu lannau afonydd trwy ailgyflwyno llystyfiant ac ailamlinellu tirweddau yn naturiol
- gwella gwelyau cregynbysgod trwy hau cregynbysgod ifanc, creu gwarchodfeydd hwyfelloedd, gan gyflwyno swbstradau priodol ac ati
- gweithio gydag awdurdodau arfordirol a morol i ddatblygu gweithgareddau treillio, diogelu'r traethlinau a gweithgareddau hamdden sydd yn gydnaws yn ecolegol
- sefydlu creigresi artiffisial
- defnyddio anifeiliaid pori i ddylanwadu ar llystyfiant
- rheoli glaswelltir
- rheoli anifeiliaid gwyllt
- technegau rheoli addasol

Gallai **cyfarwyddiadau a manylebau** gynnwys:

- darluniau/cynlluniau
- mapiau safle/asesiad delwedd o'r awyr
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- canllawiau cynhyrchwyr
- gofynion cyfreithiol
- canllawiau arfer da
- gofynion cwsmeriaid
- safon gofynnol y canlyniad
- cyfarwyddiadau llafar

Gallai **amcanion** gynnwys:

- creu neu gynnal amodau addas ar gyfer rhywogaethau penodol
- lleddfu effeithiau newid hinsawdd ar gynefinoedd
- gwella neu ddarparu cynefinoedd newydd i alluogi cysylltedd
- creu neu gynnal cymysgedd dymunol o gynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth, mynediad a hamdden
- gwarchod nodweddion ffisegol ac archaeolegol dymunol
- lleihau pwysau gweithgareddau dynol ar gynefinoedd
- hybu diogelwch safleoedd
- adfer cronfeydd carbon daearol (adfer mawndir)

Diogelwch rhag:

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

- twf cystadleuol annymunol
- amodau amgylcheddol cyffredin
- bodau dynol
- anifeiliaid
- erydiad a cholli carbon

Gallai **amodau safle ac amgylcheddol** gynnwys:

- hinsawdd
- adeg o'r flwyddyn
- tywydd
- math a chyflwr y pridd
- lefelau dŵr
- cyflwr y dŵr
- draeniad
- llethrau a lefelau
- defnydd blaenorol o'r safle
- strwythurau a systemau presennol (e.e. ffensys, gwrychoedd, muriau, llwybrau, adeiladau, pontydd, draeniau)
- mynediad
- dyfnder mawn
- hydroleg

Gallai **cyfyngiadau neu ddynodiadau safle** gynnwys:

- Parc Cenedlaethol
- Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)
- Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC)
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA),
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Parth Cadwraeth Morol
- Safle Treftadaeth y Byd (WHS)
- Safle Archaeolegol
- Parth Perygl Nitrogen (NVZ)
- Parthau Diogelu Dŵr Yfed
- Heneb Gofrestredig (SM)
- Adeilad Rhestredig (LB)
- Parciau a Gerddi Cofrestredig (RPG)
- Maes Brwydr Cofrestredig (RB)
- Safleoedd wedi'u nodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER)
- Hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad
- Ardal hyfforddi'r fyddin

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

Cysylltiadau â SGC eraill

LANEnC33 Defnyddio sgiliau adnabod rhywogaethau

Gwneud gwaith i greu, adfer neu reoli cynefinoedd LEGACY

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2025
Dilysrwydd	Etifeddiaeth
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANCS36
Galwedigaethau perthnasol	Coedyddiaeth a choedwigaeth, Rhodiwr, Swyddog Cadwraeth, Gweithiwr Ystâd, Amaethyddiaeth
Cyfres/Set	Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Crofftwyr a Thyddynwyr, Cynhyrchu Cnwd Amaethyddol
Geiriau Allweddol	cadwraeth; cynefinoedd; sefydlu; greu; adfer; tir; morol; arfordirol; dyfrffyrdd; glaswelltir; rhostir; gweundir; coetir; gwlyptir; mawndir